

MORGAN, WILLIAM (c.1545 - 1604), esgob a chyfieithydd

Enw: William Morgan

Dyddiad geni: c.1545

Dyddiad marw: 1604

Priod: Catherine ferch George

Rhiant: Lowri ferch William ap John ap Madog

Rhiant: John ap Morgan ap Llywelyn

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: esgob a chyfieithydd

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Glanmor Williams

Ganwyd yn y Ty Mawr, Wybrnant, ym mhlwyf Penmachno, tua 1545 (Venn, *Alumni Cantabrigienses*), yn fab John ap Morgan ap Llywelyn, tenant ar stad Gwydir, a'i wraig Lowri, merch William ap John ap Madog. Dywedir iddo dderbyn ei addysg fore gan hen fynach, ac aeth i Goleg S. Ioan, Caergrawnt, fel 'sub-sizar' (gwas ac efrydydd) yn 1565. Graddiodd yn B.A. yn 1568 ac yn M.A. yn 1571, a daeth yn ddiweddarach yn B.D. (1578) ac yn D.D. (1583). Yn ystod y cyfnod hwn, digon tebyg, yr argyhoeddwyd ef gan athrawiaethau Protestannaidd. Y mae'n bur annhebyg i Morgan fod yn ddisgybl i John Immanuel Tremellius, ysgolhaig enwog yn yr Hebraeg, a fu'n athro yng Nghaergrawnt o 1550 hyd 1553, er iddo dalu ymweliad â Llundain am beth amser yn 1565. Fodd bynnag, gallasai Morgan fod wedi defnyddio cyfieithiad Lladin Tremellius o'r Hen Destament, a gyhoeddwyd gyntaf yn Frankfurt yn 1575, ac a ail-argraffwyd yn Llundain yn 1579-80. Ordeiniwyd ef yn ddiakon yn Nhreflái ar 15 Ebrill 1568; mae ei gais am urddau ([Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion](#) ↗ 1922-3) yn nodi ei fod yn 23 oed ar y pryd. Cafodd ei ordeinio'n offeiriad ar 21 Rhagfyr 1568.

Y mae'n bosibl iddo fod yn ficer Llanbadarnfawr, Sir Aberteifi, o 1572 hyd 1577. Daeth wedyn yn ficer y Trallwng (1575-9), rheithor segurswydd Dinbych (1575-96), ficer Llanrhaeadr-ym-Mochnant (1578-95?), a Llanarmon (1578-95?), rheithor Llanfyllin (1579-1601), ac yn berson Pennant Melangell (1588-95). Gan gymaint gelyniaeth rhai o'i blwyfolion, helynt ddiflas a gafodd yn Llanrhaeadr. Ifan Meredith, o deulu Lloran Uchaf, oedd ei elyn pennaf, ac enynnwyd ei lid gyntaf pan lwyddodd Morgan i gael aeres gyfoethog i briodi Robert Wynn o Wydir, ar draul gobeithion nai Meredith. Yn 1579, bu Morgan yn un o'r tystion mewn achos cyfreithiol ynghylch dilysrwydd priodas Meredith, ac ar yr achlysur hwnnw y daeth i gysylltiad gyntaf â'r archesgob Whitgift, a'i cefnogodd yn fawr yn ei waith o gyfieithu. Canlyniad y cwerylon hyn oedd yr achosion a ddygwyd gan Morgan, a gwrth-achosion ei elynion, yn Llys y Seren ac o flaen Cyngor y Gororau, 1589-91. Tystia cofnodion Llys y Seren mai offeiriad cydwybodol oedd Morgan ar y cyfan, yn cael ei flino lawer gan falais ei elynion.

Y mae'n bosibl i Morgan ddechrau ar y gwaith o gyfieithu'r Beibl cyn gadael Caergrawnt; y mae'n sicr iddo'i orffen yn Llanrhaeadr - cryn gamp ag ystyried y gecraeth annifyr a fu yno. Trwy radlonrwydd [Gabriel Goodman](#), bu modd iddo aros yn Llundain i arolygu argraffu ei *Feibl*, a ddechreuwyd tua diwedd 1587. Fe'i cyhoeddwyd rywbryd rhwng mis Medi a 20 Tachwedd 1588. Wrth gyflwyno'r llyfr i'r frenhines Elisabeth, dadleuodd yn huawdl gymaint oedd yr angen amdano. Er bod iaith ei *Feibl*/braidd yn bedantig, fe'i nodweddid gan rym a phurdeb y farddoniaeth glasurol ynghyd ag ystywthder a helaethder newydd mewn mynegiant. Ei waith oedd gwir sylfaen llenyddiaeth (a Phrotestaniaeth) Cymru fodern. Yn 1588, hefyd, cyhoeddodd ei gyfieithiad o'r *Salmau ar wahân*.

Ar 30 Mehefin 1595 cysegrwyd ef yn esgob Llandaf, ond cadwodd fywoliaeth Llanfyllin, a rhai o'i fywoliaethau eraill o bosibl. Symudwyd ef yn 1601 i Lanelwy, esgobaeth a oedd ychydig yn gyfoethocach. Ildiodd ei fywoliaethau eraill, ond daliodd archddiaconiaeth Lanelwy 'in commendam.' Fel esgob, yr oedd yn taer gefnogi pregethu ac ailadeiladu. Gymaint oedd ei awydd i warchod meddiannau tymhorol yr esgobaeth fel yr aeth yn gynnen boeth rhyngddo a [David Holland](#), Teirdan, ac yn boethach fyth rhyngddo a [Syr John Wynn](#). Bu farw 10 Medi 1604. Priododd Catherine ferch George, gweddw William Lloyd, ond ni bu iddynt blant.

Awdur

Syr Glanmor Williams

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *Oxford Dictionary of National Biography*

Charles Ashton, *Bywyd ac Amserau yr Esgob Morgan, cyfieithydd cyntaf y Beibl Cymraeg* (Treherbert 1891)

Ifan ab Owen Edwards yn *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, iii, 298-339

W. J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600*

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874)

Darllen Pellach

T. E. Jacob, *The Life and Times of Bishop William Morgan, the translator of the Bible into Welsh* (1890)

Venn, *Alumni Cantabrigienses*

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1922-3, 128

Isaac Thomas, *William Morgan a'i Feibl* (Gwasg Prifysgol Cymru 1988)

Erthygl Wicipedia: [William Morgan](#)

Gweithiau

William Morgan, *Y Beibl cyssegr-lan: sef Yr Hen Destament, a'r Newydd* (London 1588)

William Morgan, John Davies a Richard Parry (goln.), *Y Bibl Cyssegr-lan: sef Yr Hen Destament, a'r Newydd* (Llundain 1630)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [NLW MS 13181B: Hebrew bible, \[1525x1858\]](#)

VIAF: [64926842](#)

Wikidata: [Q2624753](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

